Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 11 Medi 2020 – Cyfarfod TEAMS

**Yn bresennol:**

Shan Morgan
Meena Upadhyaya
Ellen Donovan
Jeff Farrar
Gareth Lynn
Andrew Goodall
Tracey Burke
Andrew Slade
Des Clifford
Peter Kennedy
Natalie Pearson
Gawain Evans
David Richards
Andrew Jeffreys
Sarah Wakeling
Robin Bradfield
Francesca Hill

**Ysgrifenyddiaeth:**
Charmain Watts

**Sylwedydd:**
Kirsty Scotter

**Ymddiheuriadau:**
Helen Lentle

## 1. Croeso

**1.1** Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb a oedd yn bresennol yn y pumed cyfarfod o Fwrdd Llywodraeth Cymru i’w gynnal yn ddigidol. Croesawyd Robin Bradfield, Ochr yr Undebau Llafur, hefyd yn aelod llawn o'r Bwrdd.

**1.2** Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf, a fydd yn cael eu cyhoeddi ar ôl y cyfarfod hwn.

## 2. Materion Presennol

**2.1** Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw at y ffrydiau gwaith allweddol yn y sefydliad a oedd yn cynnwys:

- Cyflawni blaenoriaethau'r Gweinidogion
- Yr ymateb i Covid-19
- Gweithredu Brexit
- Cyflawni gwaith statudol

**2.2** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol hefyd fod y Pwyllgor Gweithredol, ynghyd ag Ochr yr Undebau Llafur yn bwrw ymlaen â gwaith i flaenoriaethu adnoddau staff er mwyn sicrhau bod y 4 maes gwaith allweddol hyn yn cael eu cyflawni. Roedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol a Robin Bradfield yn cydnabod yr her o ran y gwaith hwn.

### Diweddariad ar Covid-19

**2.3** Rhoddodd Andrew Goodall ddiweddariad i'r Bwrdd ar y datblygiadau diweddaraf yn ymwneud â Covid-19 a'r sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol:

- Trosglwyddiad y feirws yng Nghymru a'r gyfradd R,
- Y protocol o ran y cyfyngiadau lleol yng Nghaerffili,
- Nifer yr achosion positif,
- Profi, olrhain a diogelu,
- Cyfarpar diogelu personol,
- Gweithgareddau gofal critigol
- Cynlluniau ar gyfer pandemig tymor hwy a'r gwersi uniongyrchol a ddysgwyd.

**2.4** Trafododd y Bwrdd y sefyllfa bresennol o ran y pandemig a'r posibilrwydd o ail benllanw yn y gaeaf. Mae cynllun iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y gaeaf yn cael ei gyhoeddi yr wythnos nesaf. Trafodwyd ymhellach y cynlluniau i reoli hyn ochr yn ochr â phwysau eraill fel Brexit a chyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

**2.5** Holodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol am y gwersi a ddysgwyd o'r penllanw cyntaf a'r cyfyngiadau yng Nghaerffili, a rhoddodd Andrew Goodall sicrhad fod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cynnwys ar draws y sefydliad.

## 3. Diweddariadau'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol

**3.1** Rhoddodd y Cyfarwyddwyr Cyffredinol yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith allweddol yn eu meysydd - Des Clifford yn sôn am Swyddfa'r Prif Weinidog (OFM), Tracey Burke yn ymdrin ag Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus (EPS) ac Andrew Slade yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol (ESNR)

- Roedd diweddariad Des yn canolbwyntio ar y gwaith sy'n ymwneud â'r Strategaeth Adfer a'r cylch adolygu 21 diwrnod, a oedd yn cynnwys diweddariad ar gyhoeddiad y Prif Weinidog heddiw ynghylch cyflwyno cyfyngiadau pellach. Rhoddodd Des y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd hefyd am waith Brexit ac adroddiad drafft Llywodraeth y DU ar y farchnad fewnol. Pwysleisiodd bwysigrwydd cynllunio ar gyfer y newidiadau mawr a fydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2021 p'un a gytunir ar gytundeb masnach ai peidio.

- Roedd diweddariad Tracey yn canolbwyntio ar addysg a'r gwaith o ailagor ysgolion y mis hwn, y cynnig gofal plant, digartrefedd, tai, gwaith gydag Awdurdodau Lleol ac ymateb Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru). Dywedodd Tracey fod adolygiad yn cael ei gynnal o rolau a strwythur y Ganolfan.

- Roedd diweddariad Andrew yn canolbwyntio ar feysydd gwaith allweddol cyfredol a phwysigrwydd blaenoriaethu er mwyn gallu cyflawni ymrwymiadau Covid-19, Brexit a'r Rhaglen Lywodraethu. Roedd ei ddiweddariad hefyd yn rhoi sylw i effaith addysg uwch a myfyrwyr yn symud o gwmpas Cymru, ailgychwyn y diwydiant trafnidiaeth, ein hymateb economaidd a gwaith Brexit yn ESNR.

- Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol a'u timau am eu holl waith caled drwy gydol y flwyddyn.

## 4. Diweddariad ar Gyllid

**4.1** Rhoddodd Gawain Evans yr wybodaeth ddiweddaraf am fis 4 y rheolaeth yn ystod y flwyddyn a oedd yn canolbwyntio ar:

- Rhagolygon refeniw
- Rhagolygon cyfalaf
- Sefyllfa’r cronfeydd wrth gefn cyfredol

**4.2** Esboniodd Gawain fod y dull diwygiedig y cytunwyd arno o adrodd ar gyllidebau yn ystod y flwyddyn bellach wedi'i roi ar waith gan ddefnyddio dangosfwrdd gwybodaeth reoli newydd.

**4.3** Esboniodd Andrew Jeffreys fod proses ar y gweill i ddyrannu gweddill cyllid Covid-19 a dywedodd y bydd y Cabinet yn cytuno ar gyfres o flaenoriaethau ar gyfer cyfnod adfer Covid-19 yr wythnos nesaf.

**4.4** Esboniodd Gawain ymhellach fod Llywodraeth Cymru'n rhan o gynllun rheoli arian Trysorlys Ei Mawrhydi. Bob mis mae adrannau'r llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu rhestru yn ôl pa mor gywir yw eu rhagolygon arian parod yn erbyn yr alldro gwirioneddol; ar ddiwedd Rhagfyr 2018 roedd Llywodraeth Cymru yn ail ar y rhestr. Roedd y Bwrdd yn falch o'r canlyniad hwn ac yn llongyfarch gwaith Gawain a'i dîm.

## 5. Y Fframwaith Perfformiad Allweddol

**5.1** Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr eitem hon ac esboniodd fod y gwaith hwn wedi'i gyflwyno yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**5.2** Rhoddodd Sharon Cross ddiweddariad ac esboniodd mai nod y fframwaith yw sbarduno gwelliannau yn effeithiolrwydd sefydliadol Gwasanaeth Sifil Cymru drwy ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol.

**5.3** Esboniodd Sharon ymhellach ei fod yn seiliedig ar Fynegai Effeithiolrwydd Rhyngwladol y Gwasanaeth Sifil (InCiSE) a'i addasu ar gyfer persbectif Cymreig drwy ymgynghori â'r Bwrdd, uwch-reolwyr ac ymchwilwyr.

**5.4** Croesawodd y Bwrdd hyn a chytunodd y dylid gweithredu'r fframwaith yn raddol ac mewn mod cynaliadwy. Trafodwyd sut y dylid defnyddio'r fframwaith ac roedd adborth gan aelodau'r Bwrdd yn cynnwys:

- Mae hwn yn gam mawr ymlaen i Lywodraeth Cymru gan nad oes yr un Adran arall yn bwrw ymlaen â fframwaith fel hwn.
- Mae'n bwysig gwahanu mesur perfformiad a rheoli perfformiad.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio’r system sgorio Coch Oren Gwyrdd (RAG).
- Bydd angen i'r gweithgareddau fod yn flaenoriaethau ac mae ymrwymiad gan dimau yn y sefydliad yn hanfodol i'w lwyddiant.
- Rhaid ystyried a ddylid defnyddio rhai o’r dangosyddion yn unig neu’r cyfan.
- Mae'r ffordd y caiff ei ddatblygu a'i rannu yn y sefydliad yn bwysig; cytunodd y Bwrdd fod hyn yn allweddol a gofynnwyd i David Richards archwilio'r dull cywir o ymgorffori'r fframwaith o fewn y sefydliad.

**Cam Gweithredu 1:** Cytunodd y Bwrdd y dylid dileu’r sgoriau RAG ar y priodoleddau.

**Cam Gweithredu 2:** David Richards i archwilio'r dull cywir o ymgorffori'r fframwaith o fewn y sefydliad.

**5.5** Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol am ragor o wybodaeth am y mesurau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Dywedodd Andrew Jeffreys y byddai'r cynllun Cynhwysiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael ei gyflwyno'n fuan i ExCo a fydd yn monitro ei hynt.

**5.6** Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i bawb am y gwaith hwn a gofynnodd i aelodau'r Bwrdd roi unrhyw sylwadau pellach ar y camau nesaf i David Richards.

**Cam Gweithredu 3:** Aelodau'r Bwrdd i roi unrhyw sylwadau pellach ar y camau nesaf i David Richards.

## 6. Sesiwn Her dan arweiniad Cyfarwyddwr Anweithredol

**6.1** Cyflwynodd Gareth Lynn bapur yn dilyn Sesiwn Her y Rhaglen Ddeddfwriaeth. Eglurodd Gareth fframwaith y sesiynau hwyluso, a oedd yn cynnwys:

- Adolygu deunydd cyn y sesiwn gan gynnwys strwythurau llywodraethu a diagram sgematig o gyfrifoldeb ac atebolrwydd ar draws Timau ac Adrannau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, cael sesiwn friffio ar faterion allweddol sy'n codi a statws presennol y gweithgarwch a gynlluniwyd.

- Cynnal sesiwn herio / hwyluso fanwl gydag ystod eang o Swyddogion Llywodraeth Cymru ar bob lefel yn ymwneud â'r maes gweithgarwch sydd dan sylw. Mae'r holl adborth a thrafodaethau yn cael eu casglu'n ddienw, gan alluogi sylwebaeth onest, dryloyw a llawn.

- Paratoi papur sesiwn her/hwyluso ar ôl yr her i'w gyflwyno i'r Ysgrifennydd Parhaol a'i ddosbarthu'n ehangach fel y bernir yn briodol.

**6.2** Dywedodd Gareth fod cael Sesiynau Her dan arweiniad Cyfarwyddwr Anweithredol yn fuddiol gan y byddai cadeirydd allanol ac annibynnol yn gweld pethau drwy ddrych gwahanol ac y byddai'n rhydd rhag ogwydd sefydliadol. Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol o'r farn y byddai'n ddefnyddiol ceisio adborth gan swyddogion yn dilyn pob sesiwn.

**Cam Gweithredu 4:** Ceisio adborth gan swyddogion ar ôl pob sesiwn.

**6.3** Cynigiwyd her gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol, sef a oedd y broses a ar gyfer rhoi rhaglenni newydd ar waith yn ddigon cadarn i sicrhau bod swyddogion yn deall y cwmpas a'r adnoddau y mae eu hangen o'r dechrau. Croesawodd y Bwrdd yr her hon a bydd yn archwilio'r wybodaeth a'r offer sydd ar gael i swyddogion.

**6.4** Croesawodd y Bwrdd bapur a diweddariad Gareth, a chytunwyd y dylid rhannu'r papur â'r Prif Weinidog. Cytunwyd hefyd mai'r cam nesaf oedd i Fwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol ddatblygu cyfres o gamau gweithredu o'r argymhellion yn y papur.

**Cam Gweithredu 5:** Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol i ddatblygu cyfres o gamau gweithredu o'r argymhellion yn y papur ac i rannu'r papur â'r Prif Weinidog.

**6.5** Diolchodd y Bwrdd i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol am eu holl waith a phwysleisiodd werth eu heriau a'u hadborth.

| CAM GWEITHREDU | SWYDDOG ARWEINIOL | Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu 1:** Cytunodd y Bwrdd y dylid dileu’r sgoriau RAG ar y priodoleddau. | Sharon Cross | Cwblhawyd |
| **Cam Gweithredu 2:** David Richards i archwilio'r dull cywir o ymgorffori'r fframwaith o fewn y sefydliad. | David Richards | Cwblhawyd |
| **Cam Gweithredu 3:** Aelodau'r Bwrdd i roi unrhyw sylwadau pellach ar y camau nesaf i David Richards | Pawb | Cwblhawyd |
| **Cam Gweithredu 4:** Ceisio adborth gan swyddogion yn dilyn pob sesiwn herio dan arweiniad Cyfarwyddwr Anweithredol | Yr Ysgrifenyddiaeth | Cwblhawyd |
| **Cam Gweithredu 5:** Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol i ddatblygu cyfres o gamau gweithredu o'r argymhellion yn y papur a luniwyd gan Gareth Lynn. | David Richards | Cwblhawyd |